JONES, JOHN ('Vulcan '; 1825 - 1889), gweinidog Wesleaidd



**Enw:** John Jones
**Ffugenw:** Vulcan
**Dyddiad geni:** 1825
**Dyddiad marw:** 1889
**Rhiant:** Richard Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Wesleaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Griffith Thomas Roberts

Ganwyd yn Llandwrog, 26 Rhagfyr 1825, mab Richard Jones ('Callestr Fardd'). Ymunodd y tad a'r mab â'r Cymreigyddion lleol ac â'r Wesleaid ym Methesda. Ychydig o addysg fore a gawsai, ond llwyddodd i'w ddiwyllio ei hun. Dechreuodd bregethu yng Nghorris, ac aeth am dymor i Goleg Normal Abertawe. Gweinidogaethodd ar gylchdeithiau yr Wyddgrug (1854), Abergele (1856), Llanfyllan (1858), Tregarth (1860), Caergybi (1863), Lerpwl (1866), Tregarth (1869), Bangor (1872), y Rhyl (1875), Shaw Street, Lerpwl (1878), Bangor (1881), Caernarfon (1884), a Thregarth (1885). Ymneilltuodd yn 1887, a bu farw 17 Rhagfyr 1889.

Ymddiddorai mewn barddoniaeth, gwleidyddiaeth, a cherddoriaeth, ond athroniaeth a diwinyddiaeth oedd ei hoff feysydd, ac ysgrifennodd lawer arnynt i'r cylchgronau. Golygodd *Y Winllan*, 1870-3, a bu'n gofalu am ei cherddoriaeth am rai blynyddoedd; bu hefyd ar fwrdd golygyddol *Y Gwyliedydd*. Ysgrifennodd *Traethawd ar Resymeg*, 1857, *Athrawiaeth yr Iawn*, 1861 (adolygiad ar lyfr Lewis Edwards), *Penarglwyddiaeth Duw*, 1873, *Y Beibl*, 1875 (pryddest anfuddugol yn eisteddfod Bangor, 1874), *Ameuyddiaeth*, 1877.

## Awdur

**Y Parchedig Griffith Thomas Roberts**, (1887 - 1977)

## Ffynonellau

*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, 1895, 1-12

*Y Geninen*, 1890, 73; (G yl Dewi), 19; 1891 (G yl Dewi), 13

## Delweddau

LlGC: J. Jones (Vulcan), Llyfr Ffoto T Llechid Jones Album, 17v.

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733522

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu